TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Planning Activities to Encourage Resilience (Trauma Related Events)

Yn gryno

Gall profi trawma gael effaith sylweddol ar ddatblygiad a llesiant plentyn.

Bydd y cwrs hwn yn rhoi cipolwg i ddysgwyr ar ffyrdd o ddod yn wybodus ynghylch trawma o fewn lleoliad proffesiynol a'u caniatáu i ddysgu strategaethau ar gyfer datblygu gwytnwch.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...rydych yn gweithio fel gweithiwr gofal plant proffesiynol a hoffech ddatblygu gwybodaeth ychwanegol.

...rydych yn astudio gofal plant ac eisiau ennill profiad i ategu eich dysgu neu eich paratoi ymhellach at gyflogaeth.

Cynnwys y cwrs

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd dysgwyr yn archwilio sut y gall trawma effeithio ar blentyn a'r effaith barhaol y gall ei chael. Bydd y cwrs yn rhoi syniad o'r mathau o drawma a all effeithio ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â'r strategaethau a all wella gwytnwch gan arwain at iechyd a llesiant gwell.

Ar y cwrs hwn, gallwch ddisgwyl:

Pennu beth a olygir gan drawma
Archwilio ffactorau o drawma
Dadansoddi mathau o drawma
Datblygu strategaethau i ddatblygu gwytnwch

Gofynion Mynediad

Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn. Bydd disgwyl i chi ymrwymo 6 awr ac ymgysylltu yn llawn â phob rhan o'r cwrs. Nid oes angen asesiad ffurfiol. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i gyfranogwyr gymryd rhan yn yr holl weithgareddau gyda brwdfrydedd, a dangos parch at eraill.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gall dysgwyr fynd ymlaen i opsiynau rhan-amser eraill a gynigir o fewn yr ysgol, a fydd yn cyd-fynd â'r cwrs hwn, yn ogystal â datblygiad proffesiynol parhaus.

Ymhlith yr opsiynau cwrs mae:

Effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar Iechyd a Llesiant
Cynllunio Gweithgareddau i Annog Gwytnwch (Digwyddiadau yn Gysylltiedig â Thrawma)
Dyfarniad Lefel 2 Highfield mewn Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl